# Techniquest

## Canolfan Darganfod Gwyddoniaeth

## Datganiad Hygyrchedd


Techniquest

Stryd Stuart

Caerdydd

CF10 5BW

Ffôn: 029 2047 5475

E-bost: helo@techniquest.org

**PWYNTIAU ALLWEDDOL**

**Cyn cyrraedd**

- I gael trosolwg cyflym, mae gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â Hygyrchedd a Chyfleusterau Techniquest ar gael ar-lein ar techniquest.org/cym/ymweld/hygyrchedd-a-chyfleusterau/
- Mae 'na hefyd **Daith 3D** sydd i'w gweld ar-lein ar yr un ddolen, a all rhoi gwell ddealltwriaeth o amgylchedd y safle.
- Yn ogystal, mae yna fideo byr ar y dudalen Beth sy' tu mewn ar y wefan sy'n dangos rhai o'r arddangosion sydd gennym ni.
- Gallwch hefyd ddod o hyd i rywfaint o wybodaeth ddefnyddiol cyn eich ymweliad ar ein tudalen Cyn i chi gyrraedd ar y wefan.

**Cyrraedd a Pharcio**

- Os ydych yn teithio o du allan i Gaerdydd, gan fynd tua'r de a'r dwyrain tuag at Fae Caerdydd o'r M4 gan ddefnyddio Cyffordd 33, mae Techniquest yn hawdd dod o hyd iddo gydag arwyddion twristiaeth brown i 'Amgueddfa Techniquest' sydd wedi'u lleoli gerllaw ar yr A4232. Mae'r troad hwn i Techniquest tua phum milltir o'r M4, yn union cyn  Twneli Bute.
- Os ydych yn teithio i'r de a'r gorllewin o'r M4, defnyddiwch Gyffordd 29 a chymerwch y trydydd allanfa oddi ar yr A48. Dilynwch yr arwyddion i Fae Caerdydd lle mae sawl maes parcio i ddewis ohonynt.
- Y lleoliad what3words ar gyfer ein prif fynedfa yw fairly.occupy.trucks.
- Mae gorsaf drenau Bae Caerdydd tua hanner milltir, neu ychydig llai na 1km o'r brif fynedfa.
- Mae safle bws y tu allan i'r adeilad a sawl un arall yn ardal Bae Caerdydd. Ewch i'n tudalen Cyrraedd Techniquest ar y wefan i weld dolenni i'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â bysiau.
- Nid oes gennym unrhyw le parcio i gwsmeriaid ar y safle, ac eithrio un man parcio hygyrch ar gyfer deiliaid Bathodynnau Glas. Mae hwn wedi'i nodi'n glir ar lawr caled ar ochr yr adeilad a rhaid ei archebu ymlaen llaw.

**Ffoniwch 029 2047 5475 i drafod dyddiad arfaethedig eich ymweliad fel y gall aelod o'n tîm gynghori a ellir cadw'r lle hwnnw ar eich cyfer. Os ydy'r man parcio ar gael ar gyfer eich ymweliad, byddant yn rhoi cyfarwyddiadau i chi ynglŷn  â sut i gael mynediad i'r safle hwn ar y diwrnod.**

- Mae yna faes parcio cyhoeddus yn agos iawn at y ganolfan:
  - Mae maes parcio Stryd Havannah wedi'i leoli ychydig y tu ôl i'r adeilad, tua 220 metr o'r brif fynedfa, sydd â nifer o fannau parcio am ddim wedi'u dynodi ar gyfer parcio hygyrch.

- **Mae ein maes parcio agosaf**, Cei'r Fôr-forwyn, ar gau tan Ebrill. Gallwch weld ein opsiynau wahanol am barcio cyn i chi cyrraedd.

**Wrth gyrraedd**

- Os oes gan aelod o'ch parti anawsterau symudedd, neu os oes gennych unrhyw bryderon eraill o ran hygyrchedd, rhowch wybod i'n staff wrth gyrraedd fel y gallant eich helpu i gael y gorau o'ch ymweliad.
- Mae'r brif fynedfa ym mhen dwyreiniol yr adeilad, yn wynebu ardal ganolog Cei'r Forwyn ym Mae Caerdydd, ger y glannau.
- Mae yna nifer o feinciau y tu allan yn yr awyr agored, yn agos at y brif fynedfa.
- Mae'r drysau blaen yn awtomatig ac yn mesur 194cm o led pan fyddant yn gwbl agored.
- Hefyd, mae'n bosib dod i mewn i'n cyntedd drwy Coffee Mania, y siop goffi drws nesaf. Mae'r drysau rhwng prif gyntedd Techniquest a'r siop goffi ar agor pryd bynnag mae Techniquest ar agor. Mae'r drysau hyn yn 152cm o led rhwng y siop goffi a'r brif fynedfa, a 147cm o led i fynd i'r siop goffi o'r tu allan.
- Mae'r ddesg flaen yn mesur 75.5cm mewn uchder, a gall staff symud o gwmpas y desg i gynnig cymorth.
- Mae dolen sain ar waith mewn man penodol ar y ddesg flaen.
- Mae yna fynediad gwastad drwy'r brif fynedfa flaen a thrwy'r prif ofod arddangos ar y llawr gwaelod, gyda 'gatiau cerddwyr' yn gwahanu'r cyntedd oddi wrth y llawr arddangos, sy'n 93cm mewn uchder.
- Mae yna gadair olwyn y gellir ei benthyg i'w defnyddio ar y safle (ar sail y cyntaf i'r felin) — gofynnwch i aelod o staff.
- Mae sawl set o seddi ar gael ym mhob un o barthau'r arddangosfa, ond gall y lleoliadau  amrywio yn dibynnu ar weithgaredd penodol sy'n digwydd ar y llawr.

**Anifeiliaid**

- Dim ond Cŵn Cymorth a ganiateir ar y safle.
- Gellir darparu powlenni dŵr os oes angen — gofynnwch i staff y ddesg flaen.
- Nodwch fod Techniquest yn cadw'r hawl i ofyn i gŵn adael y safle os yw eu hymddygiad yn wael neu'n beryglus ac yn amharu ar ymwelwyr eraill.

**Bagiau Synhwyraidd**

- Mae'r rhain ar gael o'n desg flaen ar gyfer y rheiny sydd eu hangen, ac yn cynnwys:
    - Map synhwyraidd
    - Stori weledol
    - Amddiffynwyr clustiau
    - Troellwyr
    - Sbectol haul
    - Octopws teimladwy

- Gwlithen hwyraidd
- Ungorn elastig

- Bydd blaendal o £20 yn sicrhau bag am hyd eich ymweliad — dychwelwch ef i'r ddesg flaen pan fyddwch yn gadael.

**Bagiau, Coetsis a Chludwyr**

- Mae ystafell gotiau ar yr ochr dde wrth i chi fynd drwy gatiau'r prif gyntedd i'r ardal arddangos ar y llawr gwaelod, lle gall eitemau gael eu gadael ar eich cyfrifoldeb eich hun.
- Mae loceri ar gael yn yr ardal yma hefyd. Mae angen blaendal o £5 ar gyfer yr allweddi a gellir eu cael wrth y ddesg flaen wrth gyrraedd (arian parod neu gerdyn).
- Mae bachau cotiau ar gael yn yr un ardal.
- Gellir gadael coetsis a chludwyr yn yr ystafell gotiau hefyd.

**Prif Ardal Arddangos: Llawr Gwaelod**

- Ar y dde, wrth i chi fynd mewn i'r brif ardal arddangos, fe welwch ddau fap o'r ganolfan ar sgrin fawr — un yn Saesneg ac un yn Gymraeg — gyda rhai arddangosion allweddol wedi'u hamlygu ynghyd â'n holl gyfleusterau safonol.
- Ac ychydig fetrau ymhellach ymlaen, mae gorsaf ddŵr ar yr ochr dde.
- Mae'r ardal gyntaf o arddangosion y byddwch chi'n mynd drwyddi yn canolbwyntio ar Gemeg a Ffiseg, fe'i gelwir hefyd yn Barth Materion Materol (melyn).
- Mae'r pen pellaf yn arwain at ardal sy'n canolbwyntio ar arddangosion Biofeddygol i'r dde — a elwir hefyd yn Barth Eich Corff — neu os ewch i'r chwith yn lle, mae ramp bychan yn arwain i fyny ac ar draws i'r Ardal Retro lle mae amrywiaeth o bosau ac arddangosion rhyngweithiol gwreiddiol ar gael i'w defnyddio.
- Mae lifft i'r llawr cyntaf wedi'i leoli rownd y gornel i'r dde wrth i chi adael y Parth Materion Materol (melyn), ym Mharth Eich Corff (coch).
- Ar eich ochr dde wrth i chi fynd i mewn i'r Parth Eich Corff (coch), mae grisiau pren 'nodweddiadol' mawr sy'n rhoi mynediad i'r llawr cyntaf drwy'r grisiau ar ochr dde bellaf y strwythur.
- Ar ochr chwith y grisiau mae llithren arian fawr.

**Prif Ardal Arddangos: Y Llawr Cyntaf**

- Mae gan y llawr cyntaf lawr gwastad drwyddi draw, gyda mynediad â ramp i'r Ardd Synhwyraidd allanol ar Deras y Dwyrain.
- Mae mynediad i'r ardd hon trwy un o ddwy set o ddrysau dwbl â llaw sy'n 150cm o led pan fydd y ddau yn cael eu hagor gyda'i gilydd, neu 73.5cm o led os mai dim ond un a ddefnyddir.

- Mae gan y set ar yr ochr dde wrth i chi wynebu'r drysau ramp lled sengl, mae gan y set ar eich ochr chwith ramp lled ddwbl.
- Mae seddau ar gael yn yr Ardd Synhwyraidd ar ddodrefn gardd pren.
- Mae gorsaf ddŵr arall ar y llawr cyntaf. Mae'r orsaf hon yr ochr arall i'r Ardd Synhwyraidd, wrth i chi ddod tuag at y toiledau, gyferbyn y Parth Chwarae Metro Bach.

**Toiledau**

- Mae gennym doiled hygyrch ar y llawr gwaelod sy'n addas ar gyfer trosglwyddo croeslin (llaw dde).
- Mae gennym doiled hygyrch ar y llawr cyntaf sy'n addas ar gyfer trosglwyddo croeslin (ar y chwith).
- Mae'r tapiau a thoiled o fewn y toiledau yn cael eu gweithredu gyda lifer.
- Mae pob toiled yn cael ei oleuo gan oleuadau LED.
- Mae'r sychwyr dwylo yn drydanol ac yn awtomatig.
- Mae'r tapiau a thoiledau yn gweithredu heb gyffwrdd yn y prif gyfleusterau ger y toiled hygyrch ar y llawr gwaelod.
- Mae'r tapiau yn dapiau tro ar y llawr cyntaf ac mae'r toiledau'n cael eu gweithredu gyda lifer.
- Mae'r lloriau y tu mewn i bob ardal toiled yn finyl.

Mae gan Coffee Mania, yn siop goffi sydd i'w chyrraedd drwy ein siop anrhegion / prif gyntedd hefyd doiled hygyrch at ddefnydd cwsmeriaid

**Cyfleusterau Newid Clytiau**

- Mae yna dair uned newi d clytiau ar gael ar y llawr gwaelod : un yn yr ystafell Newid Clytiau ger y toiledau merched, un gyferbyn â'r ystafell hon tu mewn i'r toiled hygyrch, ac un ardal newid clytiau fechan ar yr ochr dde wrth i chi nesau at y coridor 'Show Portal' (gweler y map).

**Lefelau Sŵn**

- Yn ystod cyfnodau prysur, yn enwedig gwyliau ysgol, gall lefelau sŵn fod yn uchel yn sgil y nifer o deuluoedd â phlant sy'n mynychu ar yr adegau hyn. Mae amddiffynwyr clustiau ar gael o'r ddesg flaen os bydd eu hangen arnoch chi.
- Mae'r profiad Corwynt ar y llawr cyntaf yn rhedeg ar 96 desibel am 10 eiliad ar y tro (darlleniadau desibel yn cael eu cymryd yn union wrth ymyl y ffan).
- Gall sain arddangosyn lansio rocedi sy'n cael ei bweru gan aer fod yn sydyn ac yn eithaf uchel am gyfnod byr iawn (a gall gyrraedd 92.5 desibel).
- Mae ychydig o arddangosion eraill hefyd yn allyrru rhai synau a/neu nodau cerddorol fel ein harddangosfa Molecules in Motion yn y Parth Materion Materol, a'r Piano

Mawr, Pipes of Pan, Tiwbyn Troellog, Augmented Reality Screen a’r Theremin yn yr Ardal Retro.
- Mae cyhoeddiadau tanoi, sy’n cael eu rhagflaenu gan ddau nodyn byr, yn cael eu defnyddio ar adegau o’r dydd i hysbysu cwsmeriaid ynglŷn ag amseroedd sioeau, yn ogystal ag ar gyfer gwybodaeth gwasanaeth cwsmeriaid.

**Gofod Tawel**

- I unrhyw un sy’n teimlo unrhyw fath o orlwyth synhwyraidd ac sydd angen rhywfaint o amser tawel i ffwrdd o brif lawr yr arddangosfa — neu a hoffai fwydo ar y fron, neu gymryd seibiant i weddïo — mae ystafell fechan o’r enw’r Pod ar gael. Mae’r ystafell ar hyd y coridor sy’n rhedeg rhwng yr Ardal Retro a’r Theatr Wyddoniaeth, ar yr ochr chwith wrth i chi symud tuag at y Theatr Wyddoniaeth.

**Arddangosfeydd a Sgriniau**

- Lle bynnag fo’n bosib, mae’r arddangosion newydd wedi’u dylunio i fod yn hygyrch i bobl sy’n defnyddio cadair olwyn — gofynnwch i aelod o’r tîm am arweiniad os oes angen.
- Mae gan rai arddangosion synau uchel a throslais yn chwarae; mae amddiffynwyr clustiau ar gael o’r ddesg flaen os bydd eu hangen arnoch chi.
- Mae llawer o’r arddangosion mwy diweddar yn estyniad Y Science Capital yn dibynnu ar sgriniau cyffwrdd digidol, ac mae rhai arddangosion yn dangos patrymau lliwgar, symudol.
- Mae sgrin realiti estynedig fawr yn yr Ardal Retro, yn ogystal â sgrin LED gyda logo Techniquest sy’n cylchdroi yn rheolaidd.
- Mae gan rai arddangosion sgriniau arddangos unigol fel rhan o’u swyddogaeth.
- Nodwch: Yn sgil natur Techniquest fel canolfan weithgareddau ymarferol, bydd rhai arddangosion yn cael eu diffodd o bryd i’w gilydd pan fyddant yn aros i gael eu trwsio, felly mae’n bosibl na fydd eich hoff arddangosyn yn weithredol ar adeg eich ymweliad. Gallwch wirio ymlaen llaw ar-lein ar gyfer unrhyw rai sy’n debygol o fod yn aros i gael eu trwsio ar y dudalen Cyn i chi Gyrraedd ar y wefan.

**Goleuo**

- Mae’r prif gyntedd wedi’i oleuo gan LED a golau naturiol.
- Mae stribedi goleuadau fflwroleuol LED ac amrywiaeth o sbotoleuadau LED yn bresennol ym mhob rhan o ardaloedd arddangos Y Science Capital gan gynnwys y rhannau cyntaf y byddwch yn mynd drwyddynt ar y llawr cyntaf.
- Mae gan ardal Retro’r waliau gwydr yn edrych allan ac mae golau naturiol yn llenwi’r ardal hon — mewn amodau tywyllach, defnyddir cymysgedd o oleuadau LED, ffilament, halogen a thiwbiau ffwroleuol ym mhob rhan o’r gofod.

- Defnyddir golau spot halogen gyda goleuadau newid lliw LED yn y Theatr Wyddoniaeth.
- Bydd hysbysiadau yn cael eu gosod ar ddrysau mynediad y Theatr i roi gwybod am y defnydd o oleuadau strôb — bydd hyn hefyd yn cael ei nodi ar ein gwefan fel rhan o wybodaeth gyffredinol y Sioe Wyddoniaeth Fyw, ynghyd ag unrhyw rybuddion perthnasol eraill.
- Y tu mewn i'r Planetariwm, mae goleuadau halogen wedi'u gosod o dan seddi a goleuadau sbot halogen glas wedi'u gosod yn y llawr.
- Y tu mewn i'r Lab KLA, defnyddir goleuadau LED drwyddi.
- Mae Parth Golau Isel dynodedig o fewn yr ardal Retro lle gallwch ddod o hyd i ychydig o arddangosion sy'n dibynnu ar olau isel i'w gweld ar eu gorau.

**Arwynebau**

- Mae teils carped yn gorchuddio'r rhan fwyaf o'r llawr ar ddwy lefel y brif ardal arddangos.
- Yng nghyntedd y brif fynedfa a'r ystafell gotiau yn ogystal â'r ardal wlyb yn yr Adran Retro mae'r llawr yn finyl.
- Ar y llawr gwaelod, mae teils ar lawr yr ardal sy'n arwain at y toiledau a'r Ystafell Dysgu.
- Mae gan ardal bicnic gyfagos gyfuniad o loriau finyl a theils bloc.
- Mae teils carped ar y coridorau sy'n arwain at y Theatr Wyddoniaeth, y Lab a'r Planetariwm.
- Ar y llwybr trwodd i'r Planetariwm, mae gan y llawr goridor ar lethr graddol gyda thro 180° i'r prif ddrysau sy'n 85cm o led.
- Mae teils carped ar lawr y Planetariwm.
- Finyl yw llawr y Lab.
- Mae llawr pren yn ardal llwyfan y Theatr Wyddoniaeth, ac mae'r grisiau a'r mannau eistedd wedi'u carpedu.
- Tu allan i'r adeilad, arwyneb resin gwastad sydd yn yr ardal sydd agosaf at yr adeilad.
- Rhwng y meysydd parcio sydd agosaf at Techniquest a'n prif fynedfa:
    - Yn dod o faes parcio Stryd Havannah, mae'r arwynebau'n gymysgedd o balmant, tarmac a resin, gyda ffordd fynediad fechan i'w chroesi cyn cyrraedd ardal i gerddwyr yn unig, sy'n arwain at y brif fynedfa ar ochr ddwyreiniol yr adeilad.

**Y Theatr Wyddoniaeth**

- Mae lle yn y theatr wyddoniaeth i ddwy berson sy'n defnyddio cadair olwyn ar gyfer pob Sioe Wyddoniaeth Fyw. Mae'r gofodau hyn wedi'u lleoli ar lawr yr ardal gyflwyno, o dan res gyntaf yr adran eistedd, ac ar yr un lefel â'r cyflwynydd. Gellir archebu'r rhain ar-lein cyn eich ymweliad.

- Mae gofod i ofalwr dynodedig eistedd yn union y tu ôl i'r mannau hyn, ond os bydd angen eistedd wrth ochr y person sy'n defnyddio cadair olwyn, gofynnwn i chi roi gwybod wrth y cyflwynydd  pan fyddwch yn cyrraedd.
- Mae mynediad ac allanfa'r Theatr Wyddoniaeth trwy set o ddrysau dwbl yn mesur 137.5cm.
- Mae'r seddi sy'n weddill arddull amffitheatr a gall eu cyrraedd trwy fynediad grisiog (gweler y daith 3D ar-lein am eglurder).
- Mae croeso i ddefnyddwyr cadair olwyn sy'n gallu trosglwyddo a chymryd ychydig o gamau wneud hynny os yw'r lleoedd a neilltuwyd yn llawn. Fodd bynnag, gwiriwch y daith 3D ar-lein ymlaen llaw i gael dealltwriaeth lawnach o feth y mae hyn yn ei olygu, gan fod dyfnder pob cam tua 29cm ac uchder pob cam tua 19.5cm.
- Ar gyfer gwesteion eraill, mae cyfanswm o dair rhes yn y theatr, pob un â 2 gam ar wahân.
- Mae'n bosibl y bydd rhybuddion penodol yn cyd-fynd â rhai arddangosiadau gwyddoniaeth byw — megis y rhai sy'n defnyddio rheolyddion calon. Gwiriwch wybodaeth y sioe unigol ar y wefan am fanylion.
- Mae rhai Sioeau Gwyddoniaeth Byw yn cynnwys synau uchel a/neu arogleuon cryf.
- Mae'r theatr yn eithaf tywyll o'i chymharu â gweddill y ganolfan, a gellir defnyddio goleuadau llachar yn y sioe ei hun.
- Os bydd goleuadau strôb neu effeithiau tebyg yn cael eu defnyddio mewn sioe, bydd rhybuddion yn cael eu gosod ar y drysau mynediad — a hefyd yn cael eu nodi ar y wefan — yn ogystal â nodiadau ynglŷn â sŵn uchel a/neu ffrwydradau a all ddigwydd fel rhan o'r arddangosiadau.

**Planetariwm**

- Mae yna le i un person sy'n defnyddio cadair olwyn y tu mewn i'r Planetariwm 360°.
- Cyrhaeddir hwn drwy'r coridor sy'n goleddu'n raddol at y drws mynediad.
- Mae'r lle sydd wedi'i neilltuo ar gyfer pobl sy'n defnyddio  cadair olwyn ar yr ochr chwith pan fyddwch chi drwy'r drws.
- Mae lefelau golau yn isel iawn yn y Planetariwm ac wrth agosáu ato, er mwyn helpu'r llygaid i addasu.
- Pan fydd sioe'r Planetariwm yn dechrau, efallai y bydd rhai pobl yn teimlo ychydig yn benysgafn neu' sâl ond i'r rhan fwyaf o bobl yr hyffeithiwyd dylai edrych i lawr ac i ffwrdd o'r sgrin ddatrys hyn.

**Y Lab**

- Mae mynediad gwastad i'r Lab o'r gofod arddangos ar y llawr gwaelod a'r coridor.
- Gallwn gynnal uchafswm o ddau ddefnyddiwr cadair olwyn ar gyfer pob gweithdy labordy.
- Gan fod cemegau'n cael eu defnyddio yn yr ardal hon ar gyfer arbrofion ymarferol, mae angen rhywfaint o ddeheurwydd â llaw i gymryd rhan.

- Mae'n rhaid i blant fod yng nghwmni oedolyn trwy'r amser yn y Lab. Mae cyfyngiadau oedran ar waith ar gyfer pob gweithdy a gall y gwybodaeth cael ei ffeindio ar-lein neu ar y desg flaen.

**Siop**

- Mae'r Siop wedi'i leoli yn y prif gyntedd, ar y ffordd allan o'r adeilad, ar fynediad gwastad o lawr yr arddangosfa, trwy set derfynol o 'gatiau cerddwyr' sydd tua 1m o uchder.
- Mae'r cownter yn 90cm o uchder ac yn cael ei symud i lawr i 75cm o uchder ar yr ochr dde. Gall staff hefyd ddod draw i flaen y cownter os oes angen a gallant helpu i gyrraedd nwyddau sy'n cael eu harddangos ar lefel uwch na'r hyn sy'n gyfforddus i chi gael mynediad ato.
- Mae'r ardal wedi'i goleuo gan LED a golau naturiol.

**Siop Coffi**

- Mae mynediad gwastad drwodd i'r Siop Goffi sydd drws nesaf i ni, trwy'r Siop.
- Mae ganddyn nhw doiled hygyrch at ddefnydd eu cwsmeriaid.
- Mae bwrdd mynediad dynodedig gwastad ar gael tu fewn i'r Siop Coffi, ac mae sawl bwrdd at gael ar yr wyneb gwastad y tu allan.
- Cyrhaeddir mynediad i'r cownter ei hun gan ddau ris sy'n 5 modfedd a 6 modfedd o uchder, ond bydd staff yn darparu gwasanaeth bwrdd yn ôl yr angen i'r bwrdd hygyrch ar waelod y grisiau neu i fwrdd allanol.
- Mae'r golau yn yr ardal hon yn is na'r cyntedd y gallech fod wedi dod drwodd ac mae'n gymysgedd o lampau Halogen, LED a Thwngsten, a golau naturiol.
- Mae'r lluniaeth a gynigir yn cynnwys opsiynau di-glwten a fegan.

**Gwybodaeth Tân ac Ymgiliad**

- Os byddwch yn clywed y larwm tân yn canu, ewch allan ar unwaith drwy un o'r allanfeydd tân sydd wedi'u marcio'n glir. Peidiwch â cheisio casglu unrhyw eiddo personol cyn gadael yr adeilad.
- Bydd staff yn sicrhau bod pob rhan o'r adeilad yn cael ei glirio.
- Mae gennym ni chwe allanfa dân ar y llawr gwaelod, 2 ar y llawr cyntaf a 2 ar yr ail lawr.
- Dylai gwestai â phroblemau symudedd ar y llawr gwaelod allu gadael ar unwaith drwy allanfeydd ar fynediad gwastad.
- Gellir gofyn i westeion ar y llawr cyntaf neu'r ail lawr aros am gyfnod byr mewn lloches tra bod cyflwr y larwm yn cael ei ymchwilio.
- Mae lleoliad y man cyfarfod ar gyfer gwesteion a staff tua 40m o'r brif fynedfa i Techniquest, i gyfeiriad tafarn y Mount Stewart.

- Mewn achos o ymgiliad, rhaid i’r llwybr i’r man cyfarfod osgoi’r rhan o’r adeilad â wyneb gwydr, felly bydd staff wrth law i gyfeirio gwesteion at y ffordd fwyaf diogel i lywio hyn a darparu cyfarwyddiadau pellach.
- Unwaith y byddwch wedi cyrraedd y man cyfarfod, dilynwch gyfarwyddiadau staff Techniquest a fydd yn rhoi gwybod i chi am y sefyllfa ac yn esbonio unrhyw broses aildderbyn i’w dilyn.